Ei SMART

A better start for high - risk infants

Dechrau gwell i fabanod

Synhwyraidd | Echddygol | Sylw/Rheolaeth | Cydberthnasau | Gyda'ch gilydd

Helpu fy mhlentyn i ddysgu drwy chwarae: 24 i 36 mis oed

Visit our website www.eismart.co.uk @EISmart @EI_Smart

GWNEUD FFRINDIAU, DYGSU CHWARAE AR Y CYD AC ADEILADU CYSYNIADAU

Syniad Chwarae	Sut mae'n helpu fy mhlentyn?

Paentio â bysedd / Creonau

Helpu fy mhlentyn i feithrin sgiliau cyn ysgrifennu

- Defnyddio creonau i ddatblygu gallu i afael mewn pensil
- Ymarfer sgiliau cyn ysgrifennu: llinellau a chylchoedd
- Mae paentio â bysedd yn helpu i allu cydsymud rhwng y dwylo a'r llygaid
  Noder: gall fod yn haws defnyddio creonau mwy o faint

Gwisgo i fyny / Duplo / Set adeiladu

Helpu fy mhlentyn i ddatblygu creadigrwydd a dychymyg

- Chwarae siopau, gwerthu ffrwythau, gwisgo i fyny ac ati
- Adeiladu a chopïo strwythurau â blociau a brics
- Gwneud pethau â blychau; e.e. tŷ dol, siop, caer

Cyfateb lluniau a chardiau Snap

Helpu fy mhlentyn i ddeall lliwiau a siapiau

- Cyfateb lluniau: cyflwyno gemau cystadleuol drwy gyfateb siapiau, lliwiau a lluniau
- Grwpio gwrthrychau: ffrwythau, siapiau, lliwiau ac ati
- Chwarae gemau cof: dewis 3 eitem, gadael i'ch plentyn edrych ac yna eu gorchuddio â blanced; tynnu un eitem a gadael

i'ch plentyn ddyfalu pa eitem sydd ar goll.

Llyfrau

Helpu fy mhlentyn i adeiladu geirfa

- Going through books looking at pictures
- Reading the story together using the pictures as a guide
- Talking in past and future tense to build vocabulary, creativity and logical ordering of events; E.g what happened yesterday? What is going to happen tomorrow? Where are we going this afternoon?

Gemau cerddorol

Helpu fy mhlentyn i ddysgu drwy gerddoriaeth

- Chwarae "Rhewi" a gemau cerddorol hwyliog eraill.
- Rhoi cyfleoedd i wrando a dilyn cyfarwyddiadau, wrth addysgu am eiriau a synau.

Noder: Gallwch ychwanegu offerynnau cerddorol hefyd

Wyddech chi? Fel arfer, mae plant o'r oedran yma yn hoffi chwarae â phlant eraill, gan eu bod yn dysgu i rannu a datrys gwrthdaro. Hefyd, gallant ddysgu sgiliau newydd drwy wylio eraill

Drwy chwarae y bydd plentyn yn dysgu. Crëwyd y daflen hon i gynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau a all helpu i feithrin sgiliau iaith, gwybyddol ac echddygol. Nid yw'r ffocws ar frandiau penodol o deganau ac nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae datblygiad yn amrywio o blentyn i blentyn ac os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn, siaradwch â'ch meddyg teulu neu eich ymwelydd iechyd.

© 2022 Ei SMART Diolch i Cerebral Palsy Cymru am ariannu cyfieithiad Cymraeg a hefyd i Angharad Smiriglia, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

CEREBRAL PALSY CYMRU

Ei SMART

A better start for high - risk infants

Dechrau gwell i fabanod

Synhwyraidd | Echddygol | Sylw/Rheolaeth | Cydberthnasau | Gyda'ch gilydd

Awgrymiadau ar sut i gael babanod 24 i 36 mis oed i ymgysylltu'n well wrth chwarae

Visit our website www.eismart.co.uk @EISmart @EI_Smart

Sgiliau adeiladu

Cyd-chwarae

Dylech gynnwys plant eraill mewn gweithgareddau chwarae i feithrin sgiliau cymdeithasol a datblygu iaith.

Adeiladu â blociau



Ymarfer dilyn cyfarwyddiadau, sgiliau echddygol manwl, cydsymud rhwng y dwylo a'r llygaid. Bydd plant yn dechrau stacio yn ôl maint, lliw neu siâp.

Tynnu llun a sgiliau cyn ysgrifennu

Ymarfer sgiliau cyn ysgrifennu. Gall ddechrau â sialc yn yr ardd. Dargopïo o amgylch dwylo a thraed.

Cofiwch bwysigrwydd ...

Chwarae Creadigol

Anogwch y plentyn i chwarae tŷ, meddyg, gemau gwisgo gyda hetiau, clogynnau, ffrogiau neu de parti dychmygol. Mae'n annog creadigrwydd

Cyrsiau rhwystr a chwarae yn yr awyr agored



Torrwch gylchoedd a'u gosod ar y llawr, gan awgrymu bod y plant yn hopian o un cylch i'r llall. Trefnwch weithgareddau sy'n cynnwys rhedeg, cropian a hopian i gael y 'trysor' ar y diwedd.

Twf Cymdeithasol ac Emosiynol

Helpwch y plant i enwi a deall eu teimladau a dewiswch ffyrdd rhyngweithiol a chyfeillgar i fod gyda ffrindiau a theulu. Mwynhewch wrth gael hwyl gyda'ch gilydd!

Cadw eich babi yn ddiogel...

Bod yno i'ch plentyn

Mae plant o'r oedran hwn yn hoffi antur! Nid ydynt bob amser yn deall perygl. Mae goruchwyliaeth yn bwysig.

Diogelwch yn y cartref

Cadwch gemegau'r cartref, meddyginiaethau a phob gwrthrych peryglus allan o'u cyrraedd. Byddwch yn arbennig o ofalus yn y gegin i atal llosgiadau a damweiniau.

Parhau i osgoi amser sgrin

Mae plant yn dysgu drwy wneud. Mae gwylio'r teledu yn golygu llai o amser chwarae a gall effeithio ar eu dysgu.

Wyddech chi? Fel arfer, mae plant o'r oedran yma yn hoffi chwarae â phlant eraill, gan eu bod yn dysgu i rannu a datrys gwrthdaro. Hefyd, gallant ddysgu sgiliau newydd drwy wylio eraill

Drwy chwarae y bydd plentyn yn dysgu. Crëwyd y daflen hon i gynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau a all helpu i feithrin sgiliau iaith, gwybyddol ac echddygol. Nid yw'r ffocws ar frandiau penodol o deganau ac nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae datblygiad yn amrywio o blentyn i blentyn ac os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn, siaradwch â'ch meddyg teulu neu eich ymwelydd iechyd.

© 2022 Ei SMART Diolch i Cerebral Palsy Cymru am ariannu cyfieithiad Cymraeg a hefyd i Angharad Smiriglia, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

CEREBRAL PALSY CYMRU